Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r adran:

Ffôn: (01792) 618816

Llun i Gwener (ac eithrio gwyliau'r banc)

8.30am i 4.30pm

Mae peiriant ateb ar gael y tu allan i'r oriau uchod

E-bost: SBU.CleftEnquiries@wales.nhs.uk

https://sbuhb.nhs.wales/hospitals/a-z-hospital-services/cleft-team/

Bwrdd Golygyddol: 1038
Dyddiad Cyhoeddi: Tachwedd 2020
Fersiwn: 1
Dyddiad Adolygu: Tachwedd 2022
Awdur: Helen Extence

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Swansea Bay University Health Board

Llawdriniaeth Orthognathig

Taflen Wybodaeth i Gleifion

Y Ganolfan Gymraeg i Wefus a Thaflod Hollt
The Welsh Centre for Cleft Lip & Palate

Ysbyty Treforys, Abertawe, SA6 6NL

https://sbuhb.nhs.wales/hospitals/a-z-hospital-services/cleft-team/

Beth yw llawdriniaeth orthognathig?

Cyfeirir at y math o lawdriniaeth rydych chi'n ei hystyried fel llawdriniaeth i symud yr ên neu osteotomi. Gall y pellter rhwng eich dannedd uchaf a'ch dannedd gwaelod fod yn rhy fawr i'w gywiro drwy symud eich dannedd yn unig, felly gallai llawdriniaeth orthognathig fod yn ddewis ar eich cyfer. Mae llawdriniaeth orthognathig yn golygu ailosod yr ên. Prif nodau'r llawdriniaeth hon yw:

1. Gwella'r cysylltiad rhwng eich gên uchaf ac isaf.

2. Gwella'r ffordd rydych chi'n bwyta ac yn siarad drwy ailosod eich dannedd a chywiro'r ffordd y mae eich dannedd uchaf ac isaf yn cyfarfod. Mae llawer o synau llefaru'n cael eu gwneud pan fo'ch tafod y tu mewn i'r geg a thu ôl i'ch dannedd uchaf. Efallai eich bod yn cael anhawster ynganu rhai synau fel 's' a 'z' os yw eich gên uchaf ymhellach yn ôl na'ch gên is gan nad yw'n hawdd i'ch tafod eistedd y tu ôl i'ch dannedd uchaf. Mae llawdriniaeth orthognathig yn helpu i ddod â'ch gên uchaf ymlaen, gan ganiatáu i'ch tafod fod yn y safle cywir i gynhyrchu rhai synau.

3. Gwella sut mae eich wyneb a'ch dannedd yn edrych. Gall llawdriniaeth orthognathig hefyd helpu i leddfu rhwystrau anadlu, gan ei gwneud yn haws anadlu drwy'r trwyn.

Triniaeth bellach

Bron bob amser, bydd angen triniaeth orthodontig bellach am rai misoedd ar ôl y llawdriniaeth er mwyn cwblhau'r gwaith o ailosod y dannedd. Pan gaiff y fframiau sefydlog ar gyfer y dannedd eu tynnu, bydd rhaid gosod fframiau y gallwch eu tynnu i ffwrdd a byddwn yn gofyn i chi eu gwisgo'n rhan-amser am gyfnod amhenodol.
Mewn rhai achosion, mae mwy nag un llawdriniaeth wedi'u cynllunio, er enghraifft llawdriniaeth i'ch trwyn. Fel arfer, mae'r rhain yn llawdriniaethau llai ac maent yn cael eu gwneud ar ôl i chi wella o'r llawdriniaeth ar eich gên. Gobeithiwn fod y daflen wybodaeth hon wedi ateb nifer o'ch cwestiynau. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, gwnewch nodyn ysgrifenedig ohonynt (fel nad ydych yn eu hanghofio) a thrafodwch nhw gyda'r tîm.

Gwybodaeth bellach

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar: https://

www.bos.org.uk/Your-Jaw-Surgery

Triniaeth yn dilyn y llawdriniaeth

Bydd pelydrau-X yn cael eu cymryd cyn gadael yr ysbyty er mwyn galluogi'r meddyg ymgynghorol i wirio safle newydd eich gên. Ar ôl cael eich rhyddhau o'r ward, fe'ch gwelir yn rheolaidd yn yr Adran Cleifion Allanol, yn eithaf aml ar y dechrau, yna bob blwyddyn, i wirio eich cynnydd. Ein lle ni yw gwneud yn siŵr bod eich llawdriniaeth yn sefydlog ac efallai y byddwn yn tynnu ffotograffau, modelau a pelydrau-X pellach. Mae'r ymweliadau hyn hefyd i chi siarad â ni am unrhyw broblemau sydd gennych.

Beth sy'n digwydd cyn y llawdriniaeth?

Caiff pob llawdriniaeth ei chynllunio'n unigol. Er mwyn penderfynu pa driniaeth sydd orau i chi, mae angen cynnal ychydig o archwiliadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Archwiliad clinigol llawn o'ch wyneb, eich gên a'ch ceg
- Pelydrau-X arbennig o'ch wyneb a'ch gên
- Argraffiadau er mwyn gwneud castiau o'ch dannedd
- Lluniau o'ch wyneb a'ch ceg
- Asesiad o'ch lleferydd
- Asesiad seicoleg – pan ddaw'n amser i chi a'r tîm benderfynu a ddylech fwrw ymlaen â llawdriniaeth orthognathig ai peidio
- Asesiad o'r glust, y trwyn a'r gwddf ac asesiad clyw

Mae angen i ni wybod hefyd a ydych yn derbyn (neu wedi derbyn) unrhyw driniaeth feddygol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a geir, bydd y tîm yn trafod opsiynau triniaeth gyda chi. Efallai y bydd angen apwyntiadau eraill arnoch cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud a'i esbonio i chi.

Cyn gwneud penderfyniad am lawdriniaeth orthognathig, mae'n hanfodol bod gennych iechyd deintyddol da a'ch bod yn gweld deintydd yn rheolaidd. Ni fydd llawdriniaeth a/neu orthodonteg yn cael eu hystyried os oes gennych ddannedd pwdr neu glefyd heb ei drin ar gig y dannedd. Bydd disgwyl i chi weld eich deintydd yn rheolaidd drwy gydol eich triniaeth yn ogystal â dilyn deiet iach a sicrhau hylendid geneuol da.

Fel arfer, cyn y llawdriniaeth, bydd angen triniaeth orthodontig arnoch, pan ddefnyddir offer sefydlog (fframiau dannedd) i roi eich dannedd mewn safle addas ar gyfer cywiro'r ên. Mae'r offer hyn fel arfer yn cael eu gadael yn eu lle ar ôl y llawdriniaeth er mwyn i'r cywiriad aros yn ei le ac er mwyn gwneud yn siŵr fod y brathiad a'r ymddangosiad mor ddelfrydol â phosibl.

Bydd y fframiau dannedd yn eu lle am tua 18 mis cyn y llawdriniaeth a chwe mis ar ôl y llawdriniaeth, ond gall hyn fod yn hirach mewn rhai achosion anodd.

Unwaith y bydd eich gwaith orthodontig wedi'i gwblhau, anfonir apwyntiad atoch i fynd i glinig, a fydd yn cynnwys ymgynghoriad seicoleg byr yn ymwneud â pharatoi ar gyfer y llawdriniaeth.

Rhwng un a thair wythnos cyn y llawdriniaeth, bydd angen apwyntiad hir arnoch fel claf allanol er mwyn gwirio'r manylion a thrafod unrhyw broblemau neu ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych, yn ogystal ag er mwyn trefnu radiograffiau, ffotograffau ac argraffiadau deintyddol arferol.

Fel arfer, byddwch yn cael eich derbyn i'r ysbyty ar ddiwrnod eich llawdriniaeth.

Y clustiau a'r clyw

Mae rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod canran fach o bobl sy'n cael llawdriniaeth orthognathig yn datblygu symptomau yn y glust neu'n profi newid yn eu clyw. Mae hyn fel arfer yn ymwneud â newid yn y pwysau yn y glust ganol ac mae'n codi oherwydd newid yn y tiwb Eustachio (sef y tiwb sy'n rhedeg o gefn y trwyn i'r glust). Mae hyn yn digwydd am y gall safle'r tiwb hwn newid pan fyddwch chi'n cael llawdriniaeth ar eich gên. Mae'r newidiadau yn y tiwb fel arfer yn rhai bach a thros dro ac felly maent fel arfer yn gwella'n gyflym heb fod angen triniaeth. Fel rhan o'ch asesiad, byddwn felly'n trefnu i chi weld llawfeddyg y glust, y trwyn a'r gwddf sy'n rhan o'r tîm ac yn trefnu prawf clyw i chi cyn y llawdriniaeth ac ychydig o fisoedd wedi hynny.

Deiet

Tra byddwch yn yr ysbyty, byddwn yn trefnu ymgynghoriadau gyda'r deietegydd a byddwch yn cael taflen ddeiet i fynd â hi adref gyda chi. Ar adegau yn ystod y cyfnod hwn, efallai y bydd eich pwysau'n cael ei wirio yn y clinig. Mae bob amser yn bosibl cael deiet hylifol ar ôl llawdriniaeth ac fel arfer mae bwydydd lled-solet yn bosibl hefyd. Gellir disgwyl colli rhywfaint o bwysau ond fel arfer byddwch yn adennill y pwysau'n eithaf cyflym wrth i chi wella.

Newidiadau yn eich hwyliau

Mae'n gyffredin i bobl ddweud bod eu hwyliau'n isel yn ystod y dyddiau a'r wythnosau cyntaf ar ôl y llawdriniaeth. Dylai hyn ddechrau setlo o fewn 2 – 3 wythnos. Gall y tîm seicoleg gynnig cymorth wyneb yn wyneb mewn clinig neu dros y ffôn os oes angen.

Lleferydd

Ar y dechrau, efallai y bydd eich lleferydd yn swnio'n drwynol, ond mae hyn fel arfer yn setlo yn yr wythnosau a'r misoedd cyntaf ar ôl eich llawdriniaeth. Byddwch yn cael eich gweld chwe mis ar ôl y llawdriniaeth a hefyd flwyddyn ar ôl y llawdriniaeth er mwyn cael asesiad llawn o'ch lleferydd. Bydd hyn yn ein galluogi i weld a fu unrhyw newidiadau i'r ffordd y mae eich lleferydd yn swnio. Os teimlir bod eich lleferydd yn drwynol am nad yw eich taflod yn cyrraedd cefn eich gwddf i gau'r trwyn, gellir ystyried archwiliadau pellach, fel pelydr-X. Os bydd angen hyn, bydd yn cael ei drafod yn fanwl gyda chi.

Hylendid deintyddol

Byddwch yn cael cyngor ar ofalu am eich dannedd ar ôl y llawdriniaeth. Mae'n bwysig bod eich ceg a'ch dannedd yn cael eu cadw'n lân er mwyn atal unrhyw bydredd yn eich dannedd, yn ogystal ag er mwyn atal niwed i'r meinweoedd meddal ac atal haint lle y cafwyd y llawdriniaeth.

Beth yr perygl on y llawdriniaeth?

Mae pob llawdriniaeth yn cynnwys elfen o risg sy'n gysylltiedig â'r anaesthetig cyffredinol. Fodd bynnag, risg fach ydyw. Yn dilyn y llawdriniaeth, efallai y byddwch yn colli teimlad yn eich gên a gall hyn bara tua chwe wythnos i chwe mis, ond mewn rhai achosion gall fod yn barhaol.

Lleferydd: tôn y llais a llif aer trwynol

Mae ymchwil yn awgrymu bod tua un o bob pum claf (20%) sydd wedi cael taflod hollt yn profi rhywfaint o gynnydd mewn gordrwynoldeb (lleferydd trwynol) yn dilyn llawdriniaeth i symud yr ên uchaf ymlaen oherwydd bod y daflod (to eich ceg) yn cael ei symud. Mae gan y daflod rôl hanfodol wrth gynhyrchu lleferydd gan ei bod yn cau'r trwyn oddi wrth y geg pan ydyn ni'n llefaru. Mae'r rhan fwyaf o'r synau a gynhyrchir gennym wrth siarad yn cael eu gwneud drwy fod y daflod yn cael ei chodi a bod aer yn dod allan o'r geg. Gelwir y rhain yn synau 'llafar' (er enghraifft, p, b, t, d, k, g, f, v, s, z, sh, ch, j). Yn ogystal â hyn mae tair sain (m, n a ing) lle mae'r daflod yn cael ei gostwng, gan ganiatáu aer i'r trwyn. Gelwir y synau hyn felly yn synau 'trwynol'.

Mae'r daflod wedi'i chysylltu â'ch gên uchaf ac yn ystod llawdriniaeth i wella safle'r ên, caiff ei symud ymlaen. Weithiau gall y symud yma effeithio ar allu'r daflod i gyrraedd cefn y gwddf er mwyn cau'r trwyn wrth siarad. Gall hyn arwain at leferydd trwynol, wrth i aer ddianc o'r trwyn.



Mae’r daflod feddal yn symud i fyny yn erbyn cefn y gwddf er mwyn cau'r trwyn gan ganiatáu i'r holl aer fynd i'r geg ar gyfer synau llafar.



Nid yw’r daflod yn cau gan ganiatáu i aer ddianc i'r darn trwynol gan achosi i leferydd swnio'n drwynol.

Beth sy’n digwydd ar ôl y llawdriniaeth?

Bydd sawl peth a allai achosi pryder i chi:

Poen, Chwyddo a Diffyg Teimlad

Gellir disgwyl chwyddo yn dilyn y llawdriniaethau hyn. Mae faint o chwyddo sy’n digwydd yn amrywio yn ôl yr unigolyn a'r math o lawdriniaeth sy’n cael ei gwneud. Bydd steroidau'n cael eu rhoi i chi er mwyn lleihau'r chwyddo. Bydd y rhan fwyaf o'r chwyddo'n gwella o fewn pythefnos i dair wythnos, ond mewn rhai achosion gall barhau am nifer o fisoedd yn dibynnu ar ba lawdriniaeth a gafwyd. Rhoddir gwrthfiotigau er mwyn atal haint.

Mae analgesia (cyffuriau rheoli poen) bob amser ar gael, ond mae'r rhan fwyaf o gleifion yn synnu o weld nad ydynt yn teimlo llawer o boen ac yn ei ddisgrifio fel 'anghysur' yn unig.

Ar ôl y math hwn o lawdriniaeth, mae'n gyffredin colli teimlad yn y geg a'r wyneb. Mae hyn fel arfer yn gwella er y gall gymryd misoedd. Yn y wefus a'r ên is yn arbennig, nid yw bob amser yn gwella'n llwyr.

Problemau wrth lyncu

Ar ôl ychydig amser byddwch yn gallu llyncu yn ôl yr arfer a byddwch yn cael eich annog i gael diodydd a bwyd drwy’r geg. Mae'n arbennig o bwysig cadw safon uchel o hylendid geneuol a byddwch yn cael eich annog i frwsio'ch dannedd a glanhau eich ceg ar ôl pob pryd bwyd. Bydd cegolch antiseptig yn cael ei ragnodi ond dylech barhau i frwsio eich dannedd yn dda.

Beth sy’n digwydd yn ystod y llawdriniaeth?

Ar ôl cwblhau cam cyntaf y driniaeth orthodontig, bydd y llawdriniaeth yn cael ei gwneud. Bydd hyn yn golygu mynd i'r ysbyty a bydd y llawdriniaeth yn cael ei gwneud o dan anaesthetig cyffredinol yn y theatr. Fel arfer, y cyfnod adfer yn yr ysbyty yw 1-2 ddiwrnod. Cyn cael eich derbyn i’r ysbyty, bydd angen sgrinio eich gwaed yn rheolaidd a chynnal archwiliadau eraill gan gynnwys archwiliad corfforol er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn addas i gael y llawdriniaeth. Bydd yr ymarferydd nyrsio neu'r anaesthetydd yn eich archwilio a byddwch yn cael cyfle i ofyn iddo/i am ragor o wybodaeth am yr anaesthetig.

Cyn mynd i'r theatr, byddwch yn cael meddyginiaeth i'ch helpu i ymlacio. Lle bynnag y bo modd, bydd y llawdriniaeth yn cael ei gwneud drwy endoriadau y tu mewn i'r geg er mwyn osgoi cael creithiau ar yr wyneb.

Mae'r math hwn o lawdriniaeth yn golygu torri esgyrn yr ên fel y gellir symud yr esgyrn i safleoedd newydd. Yn aml, defnyddir platiau bach a sgriwiau i’w gosod yn ei lle – yn anaml y bydd angen tynnu'r rhain.

Mewn achosion prin, gall yr esgyrn hollti mewn ffordd anffafriol. Os bydd hyn yn digwydd, yna'r diwrnod yn dilyn llawdriniaeth efallai y defnyddir bandiau elastig bach i ddal eich gên at ei gilydd, felly ni fyddwch yn gallu agor eich ceg. Byddwch bob amser yn cael eich gweld gan y deietegydd cyn i chi gael eich rhyddhau adref. Os yw’r ên yn cael ei dal at ei gilydd fel hyn, bydd y bandiau fel arfer yn aros yn eu lle am gyfnod o 6-8 wythnos. Efallai y bydd angen bandiau elastig golau rhwng y dannedd uchaf ac isaf (y gallwch eu rhoi ymlaen a'u tynnu oddi yno eich hun) am ychydig wythnosau.

Efallai y bydd angen trallwysiad gwaed arnoch yn lle gwaed sy’n cael ei golli yn ystod y llawdriniaeth. Caiff y driniaeth hon ei hosgoi lle bynnag y bo modd. Mae angen impiad esgyrn weithiau hefyd, ac fel arfer cymerir hyn o'r pelfis (y glun). Gall hyn fod yn fwy poenus na’r llawdriniaeth ar yr wyneb.

Mae'r llawdriniaeth yn cael ei gwneud o dan anaesthetig cyffredinol.

Rhaid i chi ddod â brwsh dannedd plentyn gyda chi i'r ysbyty er mwyn helpu i lanhau eich dannedd ar ôl y llawdriniaeth.

A fydd hyn yn digwydd i fi?

Bydd eich lleferydd yn cael ei asesu'n ffurfiol gan therapydd lleferydd ac iaith arbenigol cyn i chi ddechrau cael triniaeth i symud eich gên. Bydd hyn yn cynnwys asesu eich lleferydd a gwneir recordiad sain o’r asesiad hwn. Mae'n anodd rhagweld pwy fydd yn cael anawsterau gydag aer yn dod i lawr y trwyn, ond bydd asesu eich lleferydd yn helpu'r tîm hollt i benderfynu a oes gennych risg fawr neu ychydig o risg o ddatblygu lleferydd trwynol. Os yw'r asesiad o’ch lleferydd yn dangos bod eich taflod yn symud yn dda, efallai na fydd symud eich gên yn ystod y llawdriniaeth yn effeithio ar eich lleferydd. Os credir bod eich taflod naill ai’n fyr neu’n symud yn wael neu wedi'i chreithio, efallai y bydd gennych risg o aer trwynol yn dianc pan fyddwch yn siarad ar ôl y llawdriniaeth. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda chi cyn i chi benderfynu a ddylid cael triniaeth ai peidio. Efallai y bydd rhai synau sy'n anodd eu cynhyrchu oherwydd safle eich gên ar hyn o bryd yn haws i'w cynhyrchu ar ôl y math hwn o lawdriniaeth.